

Y Galwad Ffôn

Gan Heledd Bianchi

Unwaith i Megan glywed clec y drws ffrynt yn cau'n dynn y tu ôl iddi, dyma hi'n cicio eu bŵts gaeaf gwlanog tuag at y ddomen amryliw o dan stâr y lolfa. Bu'r domen yn gartref cynnes i'r 'sgidie, sliperi, hetiau, scarffiau a mennig o bob siâp. Rhwygau eu chot mewn hast cyn iddi fwg ynddi. Hongianna'i chot am yr unig drwyn rhydd a pipau allan wrth y drws ffrynt; Bryshia'u Megan yn syth at y gegin i rhoi'r tegyl 'mlaen. Dyma oedd eu hamser sanctaidd, eu phlant wedi'u hebrwng i'r ysgol; Vera, saith a Judy yn naw. Y bydda'i hi'n mwynhau potsian a chario 'mlaen gyda dyletswyddau y tŷ mewn llonydd. Y gadawa'i ei gŵr ben bore am saith i ddechrau eu shifft hir yn gyrru deinydd swyddfa o gwmpas Cymru a'r gororau. Arllwysai paned o goffi Kenyan o'r cafetiere mewn i'w hôff mwg a chafodd yn anrheg gan y plant o'u hymweliad gyda'u tâd i drêf Caerdydd tra roedd Megan yn sâl yn y gwely. Mwg enfawr coch oedd hi gyda'r slogan 'A Woman's Work Is Never Done'. Cymera'i kit kat o'r cwpwrdd fflwcs a'i dipio'n brâf yn ei choffi. Cicia'i sodlau i fynny ar y pŵff a gorwedda'i yn ôl yn i soffa chenille yn barod am i ffics o fflwcs cyn cychwyn ar ei gwaith.

"Ble uffach mae hwnna wedi mynd 'to? Mae'r plant siwr 'di symud ddi"

Dyma hi'n chwilota o gwmpas y lolfa am y teclyn ar gyfer y teledu. Chwilia'i o dan clustogau y soffa ac o dan y soffa ei hun. Y straffagla'u mwy yn ddiweddar o godi pwysau trwm. Roedd hi'n hollol ymwybodol y dylsai ofalu am ei chefn, ond mewn argyfwng roedd angen bod yn hyblyg, wrth rheswm!

"A, fynna! Blydi hel. Mae fe'n blincin cwato fynna 'to.

Y gorweddau'r teclyn yn yr un lle y gorweddodd y bore cynt a sawl bore cyn hynny, ar ben y stereo oedd yn ddu bitsh. Nid oedd ei llygaid ar ei gorau ond mi roedd hi wedi colli ei sbectol yn y sied tra'n clanhau cawellau y cwingod a'r môch gini y penwythnos gynt. A dyna lle y bu'r sbectol siwr o aros hefyd; ymhlith y clwstwr o annibendod.